# Proffil Rôl Is-Gadeirydd Panel Staff Myfyrwyr

Atodiad 3

Student Academic Reps
Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

## Amcan y Rôl

I weithio'n agos gyda'r Cadeirydd a Chydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM) i drefnu a sicrhau effeithiolrwydd Paneli Staff Myfyrwyr (PSM).

## Wedi'u cefnogi gan

- Swyddogion Sabothol
- Tîm Llais y Myfyrwyr
- Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr

## Cyfrifoldebau

- Rheoli'r trafodaethau mewn PSM
- Cyflawni rôl a dyletswyddau'r Cadeirydd os ydynt yn absennol o PSM.
- Cadarnhau'r camau wedi'u penderfynu mewn cyfarfodydd
- Cefnogi'r Cadeirydd wrth benodi dyddiadau'r PSM a chadarnhau'r agenda ymlaen llaw
- Gweithio gyda'r Cadeirydd i wahodd staff a myfyrwyr perthnasol i'r PSM.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Cadeirydd a CCM
- Hyrwyddo ymddygiad proffesiynol mewn PSM
- Mynychu Fforymau Colegau gyda Deoniaid y Colegau lle'n addas

## Cyfleoedd Datblygu

- Gwobrau cynrychiolwyr - enillwch bwyntiau trwy wahanol weithgareddau cynrychiolwyr a hawliwch dystysgrif i'w hychwanegu at eich CV
- Cyfnewidiwch eich pwyntiau cynrychiolwyr am wobrau (mae gwobrau blaenorol wedi cynnwys hwdis, mygiau, llyfrau nodiadau, poteli dŵr & mwy!)
- Datblygu sgiliau arweinyddiaeth
- Ymuno â Phwyllgor Gweithredol Swyddog Sabothol
- Mynychu digwyddiadau Cynrychiolwyr Academaidd
- Arloesi prosiect ysgol
- Ehangu eich rhwydwaith
- Enwebu eich hun ar gyfer etholiadau Undeb y Myfyrwyr
- Cael eich enwebu ar gyfer Gwobrau Cyfoethogi Bywyd y Myfyrwyr



### Yn eich rôl fel Cynrychiolydd Academaidd, NID oes disgwyl i chi ddelio â

- Anghytuno rhwng myfyrwyr a staff academaidd e.e. aflonyddu
- Gweithdrefnau ffurfiol e.e. methu arholiadau, apeliadau academaidd, amgylchiadau esgusodol, addasrwydd i ymarfer
- Ymholiadau ariannol a chyllid
- Problemau lles, iechyd, a materion personol e.e. llety, cyflogaeth, mewnfudo

Os yw myfyriwr yn dod atoch gyda phroblem, ac rydych yn ansicr ble i'w cyfeirio, cysylltwch â **StudentReps@caerdydd.ac.uk**